



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Diogelu

Efallai eich bod yn gweithio mewn adeilad newydd a/neu gyda phobl a phlant nad ydych yn eu hadnabod wrth ichi gefnogi'r gwaith hanfodol o ddarparu gofal i blant yn ystod lledaeniad y coronafeirws. Mae'n bwysig, wrth i bobl o wahanol asiantaethau a sefydliadau weithio gyda'i gilydd, bod gan bawb yr un wybodaeth ynglŷn â beth i'w wneud os ydynt yn pryderu bod plentyn mewn perygl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Bydd rhai ymarferwyr ar y safle yn brofiadol wrth ymateb i bryderon yn ymwneud â diogelu. Bydd eraill, o bosibl, yn llai hyderus wrth ymateb o dan drefniadau gweithio newydd.

- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu plant fel maes cefnogaeth hanfodol. Bydd Timau Dyletswydd Argyfwng yn parhau i fod ar agor. Mae'n bwysig bod unrhyw bryderon am blentyn neu berson ifanc yn cael eu rhannu cyn gynted â phosibl.
- Ni ddylai ofnau ynghylch rhannu gwybodaeth fod yn rhwystr i ddiogelu a hyrwyddo llesiant plant sydd mewn perygl o gael eu niweidio neu eu hesgeuluso. Rhaid i bob ymarferydd gymryd cyfrifoldeb am rannu unrhyw wybodaeth sydd ganddo. Ni all gymryd yn ganiataol y bydd rhywun arall yn rhannu gwybodaeth a allai fod yn hanfodol i gadw plentyn yn ddiogel.
- Os byddwch yn cael gwybod gan blentyn, neu gan unrhyw un arall, ei fod mewn perygl, neu os byddwch yn gweld unrhyw beth sy'n gwneud ichi bryderu ei fod mewn perygl, rhaid i chi rannu'r pryderon hynny cyn gynted â phosibl.
- Wrth gyrraedd y safle bob dydd, edrychwch i weld pwy yw'r Person Diogelu Dynodedig ar gyfer y gwasanaeth neu'r adeilad. Gall y person hwn newid os oes angen i staff hunanynysu felly edrychwch bob dydd wrth ichi gyrraedd.
- Os ydych chi'n pryderu bod plentyn neu berson ifanc wedi cael ei niweidio, neu mewn perygl o niwed, **rhaid** ichi siarad â'r Person Diogelu Dynodedig ar gyfer y gwasanaeth neu'r adeilad cyn gynted â phosibl.
- Os oes gennych unrhyw bryderon, **rhaid** ichi siarad â'r Person Diogelu Dynodedig cyn i'r plentyn neu berson ifanc fynd adref ar ddiwedd y dydd.
- Os na allwch gysylltu â'r Person Diogelu Dynodedig ar gyfer y gwasanaeth neu'r adeilad am unrhyw reswm, **rhaid** ichi ffonio Tîm Gwasanaethau Plant yr awdurdod lleol i fynegi eich pryderon cyn i'r plentyn neu berson ifanc adael. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth yw'r rhif. Gellir dod o hyd i hwn ar y poster yn eich sefydliad neu ar-lein.
- Os ydych chi'n credu bod plentyn neu berson ifanc mewn perygl uniongyrchol o gael ei niweidio, cysylltwch â'r Heddlu ar 999.